BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL CAERDYDD A'R FRO
CARDIFF & VALE REGIONAL PARTNERSHIP BOARD

HWB CYDLYNU ARLOESI RHANBARTHOL CAERDYDD A BRO MORGANNWG
CARDIFF AND VALE REGIONAL INNOVATION CO-ORDINATION HUB

# Metrigau Perfformiad a Chanlyniadau

Cynyddu manteision dadansoddi data ar gyfer cynllunio, gwella ac arloesi

## Mae Defnyddio Data'n Adeiladol yn Allweddol

Er mwyn deall gwasanaethau presennol ac ystyried dewisiadau amgen ac opsiynau newydd, mae data ystyrlon yn gymorth amhrisiadwy. Mae'r mesurau perfformiad a chanlyniadau a ddefnyddiwch yn ganolog i adrodd hanes y gofal a ddarperir gennych.

## Defnyddio Methodolegau

Mae methodolegau canlyniadau a buddion megis Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau, Dadansoddiad o Ganlyniadau Cost ac Elw Cymdeithasol ar Fuddsoddiad yn cynnig cipolwg ac arweiniad ar yr hyn y gellir ei fesur a sut y gellir dangos canlyniadau a buddion.

## Cyfrwch yr hyn sy'n bwysig:

Mae angen i ddata a gynhyrchir ychwanegu gwerth gwirioneddol; nid yw'r ffaith y gellir ei gyfrif o reidrwydd yn golygu ei fod yn cyfrannu at ddeall beth sy'n digwydd.

## Diffiniadau

**Dangosyddion Perfformiad Allweddol** (DPA) yw'r dangosyddion allweddol o gynnydd tuag at amcan bwriadedig.

**Mae Mesurau Canlyniadau a Adroddwyd gan Gleifion** (PROMs) yn adrodd ar yr enillion a wnaed gan unigolion sy'n derbyn gofal iechyd. Mae hwn yn ddata uniongyrchol gan y claf am eu profiadau.

**Mae Mesurau Profiad a Adroddwyd gan Gleifion** (PREMs) yn holiaduron sy'n mesur canfyddiadau cleifion o'u profiad wrth dderbyn gofal.

## Beth i'w ofyn i chi'ch hun

- Mae tri phrif reswm pam yr ydym yn mesur: ymchwil, barn a gwelliant. Pa un sy'n berthnasol i chi?
- Wrth ddylunio cynllun peilot, ystyriwch gasglu data fel rhan annatod o'r dyluniad, gan ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau i bennu canlyniadau.
- Ystyriwch rwyddineb, perthnasedd, amseroldeb a chymhwysedd casglu data fel y mae'n berthnasol i weithgarwch, derbynioldeb defnyddwyr (boddhad) ac effeithiolrwydd.
- Mae metrigau perfformiad datblygedig yn arbennig o ddefnyddiol wrth ddangos effeithiolrwydd a gwerth am arian. Mae'r metrigau hyn yn sail i ddadansoddiadau cost a budd, sy'n hanfodol ar gyfer hyrwyddo dulliau arloesol o ddarparu gwasanaethau.

## Cael gafael ar gymorth

Mae gan lawer o sefydliadau rolau sy'n arbenigo mewn deallusrwydd busnes a dadansoddi data. Efallai y bydd y cydweithwyr arbenigol hyn yn gallu cynnig cyngor a chefnogaeth i chi.